COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 31AIN O ORFFENNAF 2023 YN Y FESTRI, CAPEL Y PENTRE', LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL:
Y Cynghorwyr Phillip Williams (Cadeirydd), Ian Evans, Helen Jones, Manon Davies, Rhian Jones, Arwel Davies ynghyd a'r Clerc y Cyngor.

2. YMDDIHEURIADAU.
Y Cynghorwyr Rhian Evans, Bari Evans a'r Cynghorydd Sir Ddinbych Elfed Williams.

3. DDATGAN DIDDORDEB.
Dim yn codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd yr aelodau'r cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd a'r 26ain o Fehefin 2023.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.
A: Mi fydd Swyddogion Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn asesu'r ffyrdd canlynol mewn cyflwr gwarthus ac yn adroddi yn ôl i'r Cyngor Cymun cyn gynted â phosib:-
1: Ffordd gefn heibio Bryn Morfydd.
2 Ffordd o'r byg tuag at Ysgol Pant Pastynog.
3. Glaswellt eisiau eu torri rhwng Llan Llanrhaeadr tuag at Brion.
B. Mae'r Prif Swyddog Llwybrau Cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn i'r llwybrau cyhoeddus canlynol:-
1. Heibio Tan-y-Garth
2. Heibio Tan-yr-Allt.
3. Heibio Plas Capten.

6. ETHOLAETH Y CYNGOR.
Adroddwyd y Clerc nad oedd yna gais am isetholiad i lenwi'r ddwy sedd wag sydd yn bodoli ar y Cyngor am mi fydd y Cyngor yn llenwi'r seddi wag trwy gyfethol.

7. TRAFODAETH GYDA'R CYHOEDD YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD.
Dim cyhoedd yn bresennol.

8. AROLWG ANGHENION TAI GWLEDIG YN Y GYMUNED.
A: Llythyrau pawb sy'n byw o fewn yr ardal y Cyngor Cymuned wedi derbyn „Holiadur Anghenion Tai Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch" ar yr wythnos yn diweddu 22ain o Orffennaf 2023.
B: Gwahodd pawb i fynychu Diwrnod Agored fe gewch chi benderfynu ar leoliad addas). Mae'r Diwrnod Agored wedi cael eu trefnu ar gyfer 2il o Awst 2023 yn Festri'r Capel0y0Pentre, Llanrhaeadr rhwng 4.30 a 6.30 . Byddwn yn gwahodd Tai Teg a SARTH i fynychu'r Diwrnod Agored er mwyn trafod opsiynau tai fforddiadwy gyda phobl.
C: Paratoi'r adroddiad ar ôl y diwrnod cau'r holiadur ar 11eg o Awst 2023 a'i gyflwyno i chi.

9. MATERION CYLLID.

A: Diweddaraf banc y Cyngor - £20,152.37.

B. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol y Cyngor:-

1. Ffi fisol HSBC £10.00.
2. Cyngor Sir Ddinbych am ddau gyfarfod misol y Cyngor £40.00.
3. Cyflog y Clerc am y cheater yn diweddu 30ain o Fehefin 2023 £502.10.
4. HM Revenue & Customs am PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2023 £125.40.
5. Caban-y-Plwyf am bedair cyfarfod y Cyngor £80.00.
6. Capel MC Llanrhaeadr am ddau gyfarfod y Cyngor £40.00.

C. Cais am gefnogaeth arian oddi wrth Caban-y-Plwyf yn Ysgol Pant Pastynog, Prion - penderfynwyd gadael ar y bwrdd hyd gyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn i'r Clerc dderbyn fwy o wybodaeth gan y mudiad.

10. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A: Planning Application: 23/2023/0468 - Demolition of existing poultry farm and erection of a poultry unit for turkey breeding comprising of 2 number linked poultry units with associated feed bins, tractor shed, hardstandings, access road, new vehicular access and associated works at Brŷn Golau, Saron - Penderfynwyd rhoi'r sylwad fod y mynediad newydd i'r safle yn rhy agos at y gornel wrth y groesffordd gyfagos.

B: Planning Application: 23/2023/0469 - Demolition of existing poultry farm and erection of a poultry unit for turkey breeder selection comprising of 6 number linked poultry units with associated feed bins, amenity block, storage shed, two hardstandings and associated works at Pen-y-Ffrith, Saron. Dim gwrthwynebiad.

C: Planning Application: 23/2023/0479 - Variation of condition number 1 of planning permission code number 23/2021/0927 to allow amended house types and site layout on land adjacent to Dolwar, Llanrhaeadr. Penderfynwyd rhoi'r sylwadau canlynol:-

1: Pam fod y datblygwr eisiau cynyddu'r nifer o dai hefo tair llofft a lleihau'r rhai hefo pedair a nifer 1/2. Lle mae'r gofyn am hyn?

2. Mae'r datblygwr eisiau cael gwared â'r llwybr o flaen Dolwar dwi'n credu bydd hyn yn torri cyswllt rhwng y stad ar bentref ac yn annog fwy o ddefnydd o geir.

11. GOHEBIAETH.

Dim gohebiaeth eraill eisiau sylw.

12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Cynghorydd Sir ddim yn bresennol.

13. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A: Nodwyd fod helyntion tenantiaid 9 Maes-yr-Felin yn dal yn bodoli.

B. Mae'r datblygwr cais cynllunio Cae'r Mynydd wedi torri rhai o'r amodau'r cais cynllunio.

14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 25AIN O FEDI 2023 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.